# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# MEDDYGON CYMREIG YR OESOEDD CANOL: MEDDYGON MYDDFAI



16th-century drawing showing distillation equipment in use (Wellcome Collection CC BY 40, Public Domain, Roesslin 'Kreuterbuch'/ Herbal)
Wikimedia Commons

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd Meddygon Myddfai yn deulu o feddygon, ac yn byw ym mhentref Myddfai yn Sir Gaerfyrddin.

Dywedir iddynt ddechrau ar eu gwaith yn y 1200au pan roedd Rhiwallon y Meddyg, a'i dri mab  Cadwgan, Gruffudd ac Einion, yn feddygon a oedd yn enwog am eu gallu ledled Cymru'r oesoedd canol.

Daliodd y teulu ati i drin cleifion tan bod y teulu'n dod i ben yn 1739. Cofnodwyd eu ryseitiau yn llyfr Coch Hergest, sy'n dyddio o'r 14eg ganrif, ac roedd rhai pobl wedi trosglwyddo'u meddyginiaethau i eraill heb eu cofnodi o gwbl.



Llyn y Fan Fach
SNappa2006, CC BY 2.0 <https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>, via Wikimedia Commons



Murlun ym Mhlas Meddyg, Rhuthun. Artist: Maggie Humphry gan Eirian Evans, CC BY-SA 2.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=12579209

**Hanes Meddygon Myddfai**

Tra'n bugeilio ei wartheg gwelodd dyn ifanc, a oedd yn byw gyda'i fam ar bwys Llyn y Fan Fach ger Blaen Sawdde (yn agos i Landdeusant), ferch brydferth yn codi o'r dŵr. Syrthiodd mewn cariad gyda hi, a gofynnodd iddi ei briodi.

Atebodd hi y byddai'n ei briodi ar yr amod na fyddai'n ei tharo'n ddi-reswm tair gwaith; pe digwyddai hynny, byddai'n dychwelyd at ei thad.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd ef mewn cariad, felly cytunodd heb oedi. Ei gwaddol gwraig iddo oedd gyr o wartheg gwyn hyfryd. Buon nhw'n byw yn Esgair Llaethdy ger Myddfai, cawsant blant, roedd popeth yn llwyddiannus ac roeddent yn hapus.

Un diwrnod, pan roeddent ar eu ffordd i fedydd, atgoffodd y dyn hi i nôl ceffyl, gan ei chyffwrdd ar ei hysgwydd. Yna, pan grïodd mewn priodas, fe gyffyrddodd â hi unwaith eto. Pan chwarddodd yn uchel mewn angladd, dyna oedd y trydydd tro iddo ei chyffwrdd, a hynny ar ei braich.

Y diwrnod hwnnw fe gododd y wraig, cerddodd yn ôl at y llyn, rhydiodd i'r dŵr a diflannodd. Dilynodd yr holl wartheg hi, a'r holl bethau hyfryd roeddent wedi casglu tra eu bod gyda'i gilydd – aeth y cyfan yn ôl i'r llyn. Y cyfan a oedd ar ôl oedd ei gŵr a'i tri mab.

Yn aml, byddai'r meibion yn cerdded o gwmpas y llyn yn y gobaith o weld eu mam unwaith eto. Un diwrnod, ymddangosodd hi i'w mab hynaf gan roi iddo bresgripsiynau meddygol, ac egluro iddo sut oedd gwella cleifion. Dywedodd y byddai ef a'i ddisgynyddion yn iachawyr.

Ymhen ychydig wedi hynny, ymddangosodd hi unwaith eto, gan roi iddo wybodaeth ynghylch pa berlysiau a phlanhigion y dylai ddefnyddio wrth lunio meddyginiaethau.

A dyna'r ffordd y dechreuodd Meddygon Myddfai.

Mae dau ddyn, y dywedir taw nhw yw'r ddau ddisgynydd olaf, wedi'u coffáu ar garreg bedd ym mhortsh Eglwys Sant Mihangel ym Myddfai.

Y Dr Rice Williams o Aberystwyth (1757 – 16eg Mai 1842) oedd crwner Gogledd Cymru, a fe oedd yn gyfrifol am adeiladu'r Bathondai Morol ar lan y môr yn Aberystwyth. Roedd hefyd yn honni taw ef oedd y diwethaf o Feddygon Myddfai.



Bysedd y cŵn, ffynhonnell y feddyginiaeth digitalis.
Sylvia Wetzel, CC0, via Wikimedia Commons

Yng **Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** gallwch fwynhau tro o gwmpas Gardd yr Apothecari, ac hefyd ymweld â Siop yr Apothecari.

Testun wedi'i addasu o'r wefan:
https://botanicgarden.wales/

# MYSTERIOUS AFAN CUDD